Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Triniaeth Ffrwythlondeb gan ddefnyddio Tabledi Letrozole

## Gwybodaeth i Gleifion

**Beth yw Letrozole a pham mae'n cael ei roi ar bresgripsiwn?**

Mae tabledi Letrozole yn gweithio trwy atal yr ofarïau a meinweoedd eraill rhag cynhyrchu hormon o'r enw estrogen dros dro. Mae'n perthyn i ddosbarth o gyffuriau o'r enw atalyddion aromatase. Nid yw Letrozole wedi'i gymeradwyo'n swyddogol i'w ddefnyddio ar gyfer ysgogi ofyliad am nad yw'r cwmni cyffuriau wedi gwneud cais am drwydded benodol i ganiatáu triniaeth ar gyfer ffrwythlondeb.
Er hynny, mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy fel triniaeth gan arbenigwyr ffrwythlondeb i helpu datblygu wyau ac ysgogi ofyliad (rhyddhau wyau o'r ofarïau). Fe'i defnyddir mewn menywod nad ydynt yn ofylu'n rheolaidd. Fe'i defnyddir mewn menywod â syndrom ofarïau polysystig nad ydynt yn rhyddhau wyau. Y nod yw cynyddu ofyliad a chynyddu'r siawns y byddwch chi'n beichiogi. Mae Letrozole wedi cael ei ddefnyddio fel triniaeth ffrwythlondeb ers blynyddoedd lawer ac mae'n ymddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

**Pryd i ystyried Letrozole?**

- Efallai y caiff ei argymell fel dewis arall yn hytrach na Clomid (clomiphene citrate)
- Os yw syndrom ofarïau polysystig (PCOS) arnoch chi ac nad ydych chi wedi ymateb i driniaeth ysgogi ofyliad gyda Clomid
- Os na allwch chi oddef Clomid
- Os ydych chi'n datblygu mwy o ffoliglau yn barhaus mewn ymateb i driniaeth ysgogi ofyliad
- Os yw Clomid yn effeithio ar ddatblygiad arferol leinin y groth

**Beth yw manteision Letrozole?**

- Nod cymryd Letrozole yw cynyddu ofyliad a chynyddu'r siawns y byddwch chi'n beichiogi
- Dangoswyd bod gan Letrozole gyfraddau gwell o ran ofyliad llwyddiannus
- Nid yw Letrozole yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar leinin y groth (sydd weithiau i'w gweld â Clomid), ac felly mae'n arwain at gyfraddau geni uwch.
- Mae Letrozole yn gysylltiedig â mwy o gylchoedd lle mae un ffoligl yn unig yn datblygu felly mae'r gyfradd o feichiogrwydd lluosog yn is (o'i gymharu â Clomid)

**Beth yw'r triniaethau amgen i Letrozole?**

Mae yna ychydig o opsiynau triniaeth gwahanol er mwyn ysgogi ofyliad:

- Clomid (clomiphene citrate)
- Metformin (gellir ei gyfuno â Clomid) mewn menywod â PCOS
- Drilio'r ofarïau drwy lawdriniaeth laparosgopig (llawdriniaeth twll clo) mewn menywod â PCOS
- Triniaethau arbenigol (ar gael yn y clinig IVF)
    - Pigiadau o hormonau ysgogi ffoliglau (FSH)
    - Triniaethau cenhedlu â chymorth (IVF/ICSI)

**Sut i gymryd Letrozole**

Tabled a gymerir drwy'r geg yw Letrozole. Y dos cychwynnol fel arfer yw 2.5mg y dydd, i'w gymryd o ddiwrnod 2 hyd at ddiwrnod 6 cylchred eich mislif (diwrnod 1 yw diwrnod llawn cyntaf y gwaedu). Er mwyn eich helpu i gofio cymryd Letrozole, cymerwch ef tua'r un amser bob dydd. Os byddwch chi'n anghofio cymryd dos, siaradwch â'ch meddyg, oherwydd efallai y bydd angen i chi newid eich cylch triniaeth. **Peidiwch â chymryd dau ddos gyda'i gilydd i wneud iawn am ddos rydych chi wedi'i anghofio.**

**Pryd yw'r amser gorau i gael cyfathrach rywiol?**

Argymhellir eich bod yn cael cyfathrach rywiol o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos, a'u hamseru'n gyson drwy gydol y mis er mwyn ceisio beichiogi. Wrth gymryd Letrozole, yr amser gorau i gael cyfathrach rywiol yw o 5 diwrnod ar ôl y dabled Letrozole olaf (diwrnod 10 yn y cylch) bob yn ail ddiwrnod am wythnos.

**Sut mae'r ymateb i'r driniaeth yn cael ei fonitro?**

Bydd gofyn i chi fynychu prawf gwaed ar ddiwrnod 21 y cylch cyntaf i wirio lefel eich progesteron. Bydd hyn yn ein galluogi i wirio a ydych chi wedi ofylu. Gall gymryd 3-4 diwrnod i ganlyniad y prawf progesteron fod ar gael.

Cysylltwch ag ysgrifennydd y gwasanaethau ffrwythlondeb i gael y canlyniad **01873 732148**.

Os yw'r prawf gwaed yn dangos eich bod wedi ofylu, gellir rhoi’r un dos o Letrozole yn y cylchredau canlynol, eto o ddiwrnod 2 hyd at ddiwrnod 6.

Os nad yw ofyliad wedi digwydd, fe'ch cynghorir i gynyddu'r dos i 5mg, bydd angen cymryd hwn bob dydd, eto o ddiwrnod 2 hyd at ddiwrnod 6 cylchred eich mislif. Byddwch hefyd yn cael presgripsiwn ar gyfer mwy o dabledi os cynyddir y dos. **Peidiwch** â chynyddu'r dos eich hun.

Bydd angen prawf gwaed lefel progesteron pellach ar ddiwrnod 21 o gylchred eich mislif os ydych wedi cael cyngor i gynyddu'r dos. Os yw'r prawf yn cadarnhau ofyliad, gellir rhoi’r un dos o Letrozole yn y cylchoedd canlynol. Os nad oes gwaedu’n

digwydd erbyn 6 wythnos ar ôl eich tabled Letrozole olaf, dylech chi wneud prawf beichiogrwydd.

Os ydych chi'n feichiog, ni fydd angen triniaeth bellach arnoch chi a dylech chi roi gwybod i'ch meddyg teulu. Os yw eich prawf beichiogrwydd yn negyddol, gwnewch y prawf eto ymhen yr wythnos i gadarnhau'r canlyniad. Os nad ydych chi'n feichiog, dechreuwch gylch arall o driniaeth Letrozole ar yr un dos ag uchod, ar eich mislif nesaf rhwng diwrnod 2 a diwrnod 6 o'ch cylchred.

**Hyd y driniaeth**

Ni argymhellir cymryd Letrozole am **fwy na chwech chylch i ddechrau**. Os nad oes beichiogrwydd wedi digwydd ar ôl chwe chylchred, gofynnir i chi weld y meddyg ymgynghorol i gynllunio'r camau nesaf. Mae'n bosibl na fydd rhai cleifion yn ofylu o gwbl ar Letrozole. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd triniaethau amgen yn cael eu trafod.

**Beth os nad oes gennych chi gylchred mislif?**

Os nad ydych chi'n cael mislif yn rheolaidd, neu os nad ydych yn cael mislif yn ddigon aml, byddwch yn cael tabled progestin (fel Provera) i ysgogi gwaedu. Yna dechreuwch Letrozole ar yr ail ddiwrnod ar ôl i'ch mislif a ysgogwyd ddechrau, a dilynwch y cyfarwyddiadau uchod.

**Pa sgil-effeithiau y gall y feddyginiaeth hon eu hachosi?**

Nid yw sgil-effeithiau gyda Letrozole yn gyffredin.
Mae'r symptomau mwy cyffredin yn cynnwys:

· Fflachiadau poeth, cur pen, pendro, blinder achlysurol
· Anghysur yn yr abdomen (chwydd neu boen)
· Syst ar yr ofarïau
· Gor-ysgogi'r ofarïau (lle mae'r ofarïau wedi gor-ymateb) (credir bod y risg yn llawer llai gyda Letrozole). Cysylltwch â'ch meddyg ar unwaith os byddwch chi'n profi chwydd yn y stumog, yn ennill pwysau neu'n teimlo'n fyr o wynt.
· Beichiogrwydd lluosog - amcangyfrifir bod nifer yr achosion o efeilliaid tua 1 o bob 30 o fenywod (3.4%) (mae hyn yn is na'r hyn a welir wrth ddefnyddio Clomid).
· Gallwch brofi **symptomau i’r golwg** (anghyffredin) ddigwydd, gan gynnwys golwg aneglur neu golwg ddwbl a gweld smotiau neu fflachiadau. **Os bydd y rhain yn digwydd, rhaid i chi roi'r gorau i'r driniaeth a rhoi gwybod i'ch meddyg ar unwaith**

*Fe welwch restr lawn o symptomau ar daflen wybodaeth y gwneuthurwr a ddaw gyda'ch meddyginiaeth. Os oes unrhyw symptomau eraill y credwch chi allai fod yn gysylltiedig â'r tabledi hyn, siaradwch â'ch meddyg neu fferyllydd am gyngor.*

## Ymateb i'r driniaeth

Mae yna lawer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar eich ymateb i'r driniaeth ac a fyddwch chi'n cael genedigaeth fyw. Mewn menywod â PCOS, mae'r tebygolrwydd o enedigaeth fyw yn cynyddu gan hyd at 40-60% gyda Letrozole o'i gymharu â Clomid.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, os hoffech chi siarad â'r nyrsys cyswllt ffrwythlondeb neu os hoffech chi drefnu apwyntiad, cysylltwch ag ysgrifennydd y gwasanaethau ffrwythlondeb drwy ffonio 01873 732148.**

Gwefannau defnyddiol NHS Choices:
Fertility Network (fertilitynetworkuk.org)
Saving babies' lives - Charity for Babies | Tommy's (tommys.org)

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**